

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (ROUND WOOD, MAELFA, LLANEDERN, CAERDYDD) 202-

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd. Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd ar 30 Ebrill 2020 o dan y cyfeirnod 19/03219/MJR ac a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Round Wood, Maelfa, Llanedern, Caerdydd) 202- ("y Gorchymyn"), os caiff ei wneud, yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Yn ystod yr 28 o ddiwrnodau o 13 Hydref 2022 ymlaen, gellir edrych ar gopiâu o'r Gorchymyn drafft a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn The Powerhouse, Round Wood, Llanedern, Caerdydd CF23 9PN, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1561541.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru erbyn 9 Tachwedd 2022.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phersonau a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori, bydd yr wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi a'ch data personol yn cael eu trosglwyddo i'r ceisydd/datblygwr ac, os oes angen, i'r awdurdod priffyrdd lleol i'w galluogi hwy i ymateb i chi. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Pan na fo gwrthwynebiadau yn gallu cael eu datrys a phan fo'r Gorchymyn yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus ("YC"), caiff pob gohebiaeth ei chopio i Arolygydd yr YC ac fe'i cedwir yn y Llyfrgell YC lle y bydd ar gael i'r cyhoedd.

Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (ROUND WOOD, MAELFA, LLANEDEYRN, CARDIFF) ORDER 202-

The Welsh Ministers propose to make an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary, and it will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the County Council of the City and County of Cardiff on 30 April 2020 with reference number 19/03219/MJR and described in Schedule 2 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Round Wood, Maelfa, Llanedeyrn, Cardiff) Order 202- ("the Order"), if made, will cease to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

During 28 days from 13 October 2022 copies of the draft Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal office hours at the Powerhouse, Round Wood, Llanedeyrn, Cardiff CF23 9PN, or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1561541.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or by email to TransportOrdersBranch@gov.wales by 9 November 2022.

Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with persons and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process, the information you have provided and your personal data will be passed to the applicant/developer and, if necessary, to the local highway authority to enable them to respond to you. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. Where objections cannot be resolved and the Order becomes subject to a Public Inquiry ("PI"), all correspondence is copied to the Inspector of the PI and is available in the PI library when it becomes publicly available.

If you do not wish personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if

Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd YC yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-cau>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1
(Bras amcan yw pob mesuriad)

Y darn o briffordd sydd i'w gau

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ar Round Wood, Maelfa, Llanedern, Caerdydd, i gyfeiriad y de-orllewin ac sy'n arwain at yr hen orsaf heddlu, Maelfa, Caerdydd, sydd ag arwynebedd o 630 o fetrau sgwâr ar y mwyaf ac sydd wedi ei farcio â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 2
(Bras amcan yw pob mesuriad)


Y Datblygiad

Bydd y datblygiad yn galluogi dymchwel garejys presennol a datblygu 41 o fflatiau byw'n annibynnol sy'n barod ar gyfer gofal, a gwaith cysylltiedig yn yr hen orsaf heddlu, Maelfa, Llanedern, Caerdydd, CF23 9PN.

there is to be a PI, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/stopping-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government

SCHEDULE 1
(All measurements are approximate)

Length of highway to be stopped up

An irregular shaped length of highway located on Round Wood, Maelfa, Llanedeyrn, Cardiff, heading in a south westerly direction and leading to the former police station, Maelfa, Cardiff, with a maximum surface area of 630 square metres and marked with zebra hatching on the deposited plan.

SCHEDULE 2
(All measurements are approximate)

The Development

The development will enable the demolition of existing garages and development of 41no. independent living care-ready flats and associated works at former police station, Maelfa, Llanedeyrn, Cardiff, CF23 9PN.